CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEDI 15, 2026

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Medi 15, 2026 am 7:30 o'r gloch.**

www.cyngorllanfachreth.cymru

**Presennol** Robin Jones (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Llion Williams. Meurig Ashton. Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd.** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Rhun Prys Jones. Emlyn Roberts. Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths.

**3. Datgan diddordeb.**

Eitem 8.c. Roedd Gerallt a Llion yn datgan diddordeb ynglŷn â 'Legal Charge' Neuadd Bentref Llanfachreth.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 21, 2026**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 21, 2026**

Eitem 8.a. 1. Anfonwyd llythyr (22/7/2026) i Arweinydd Tim Mynediad, Cyngor Gwynedd i ystyried codi'r ad-daliad maent yn ei roi yn flynyddol i dorri gwair llwybrau cyhoeddus. Mae'r ad-daliad yn £490.30 ac wedi bod felly ers 2017.

2. Rhoddwyd gwybod (22/7/2026) i'r aelodau mai cais Mr Daniel Jones ddewiswyd i dorri gwair y llwybrau.

3. Rhoddwyd gwybod (23/7/2026) i'r ymgeisiwyr oedd ddim yn llwyddiannus ein penderfyniad a rhoddwyd gwybod iddynt os bydd gwaith gan y Cyngor angen ei wneud mi fyddwn yn cysylltu gyda hwy.

Gofynnwyd (6/8/2026) i'r aelodau i gadw llygad ar y gwaith mae Danial yn ei wneud.

Eitem 5. Eitem 7.dd. Anfonwyd (5/8/2026) i Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni) llythyr yn rhoi gwybod mae'r prosiect wedi cael ei orffen ac fel roedd angen anfonwyd: .

a. llun o'r meinciau (3) a'r potiau planhigion (2) yn eu lle

b. anfoneb tuag am y meinciau a'r potiau planhigion

c. cyfriflen banc yn dangos bod y taliad am y meinciau a'r potiau planhigion wedi cael ei wneud.

Os mae sticeri angen eu rhoi ar y nwyddau gofynwyd iddynt eu hanfon i Gerallt.

Derbyniwyd (18/8/2026) oddi wrth y Swyddog 'Ffurflen Cwblhau Prosiect'. sydd angen ei lenwi. Anfonwyd (20/8/2026) y ffurflen wedi ei lenwi i'r Swyddog.

Derbyniwyd (19/8/2026) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd £1,810.20 sef y grant Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni).

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (24/7/2026) oddi wrth Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru gyda holiadur i'w lenwi iddynt archwilio a oes awydd i adolygu maint a strwythur cynghorau o'r fath ledled Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (30/7/2026) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith yn cael ei wneud ar:

a. Llwybr 111: torri cangen ac amnewid postyn giat wedi pydru.
b. Llwybr 110: amnewid campfa a giat ddiffygiol gyda 2 giat i gerddwyr.
c. Llwybr 73 a 119: 4 giat i gerddwyr, atgyweirio 2 giat ac ail-decio pont.
ch. Llwybr 103: Gosod un giat i gerddwyr.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (14/8/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn cynnwys gorchymyn Cyngor Gwynedd (Llwybrau troed cyhoeddus rhifau 65, 58 a 61 yng nghymuned Ganllwyd (Gwahardd defnydd dros dro) 2026 rhybudd 1af. Daw'r gorchymyn i rym ar14/9/2026) ac yn para am 6 mis i gwblhau'r gwaith.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (20/8/2026) oddi wrth Adran Amgylchedd – Trafnidiaeth, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Trafnidiaeth Cymru yn newid rhwydwaith bysau cyhoeddus ac maent am ymgysylltu â'r cyhoedd trwy sesiynau i rannu barn. Bydd sesiwn yn Tŷ Siamas ar 10/9/2026 am 1.00-4.00yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (24/8/2026) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o gyrsiau hyfforddiant yn Awst i Ragfyr 2026.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

dd. Llythyr (24/8/2026)oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod:
i. Bydd gwaith ar Lwybr 62, Cae'r March - Ty'n Twll. Y gwaith fydd: torri 400m o lystyfiant, torri canghenau, diwrnod gwirfoddolwyr, amnewid dwy gamfa ddiffygiol hefo gatiau i gerddwyr, codi naw postyn cyfeirbwyntio, atgyweirio giat i gerddwyr ac atgyweirio pont.

ii. Bydd gwaith yn cael ei wneud gan Tim Tacluso Ardal Ni ar 7-11/9/2026 yn Brithdir a Llanfachreth.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

e. Llythyr (4/9/2026) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd gyda Rhybudd a Gorchymyn ynglŷn â gwahardd defnydd dros dro Llwybrau Troed Cyhoeddus Rhifau 56, 58 a 61 yng nghymuned Ganllwyd bydd yn dod i rym ar 14/9/2026 ac yn para am 6 mis.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (13/9/2026) oddi wrth Clwb Moduro Harlech a'r Cylch yn rhoi gwybod bydd rali ceir yn yr ardal ar nos Sadwrn / bore Sul, Medi 26 / 27.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

## 7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/LB180A. Adeilad Rhestredig. Atgyweirio eglwys hanesyddol, gan gynnwys ail-doi, systemau dŵr glaw, ail-bwyntio, ac atgyweirio a phaentio plastr mewnol. Eglwys Sant Marc, Brithdir.

Penderfynwyd (31/7/2026) cefnogi'r cais am y rheswm mae'r adeilad yn hanesyddol bwysig ac mae'r gwaith sydd am ei wneud yn angenrheidiol.

b. Cais cynllunio rhif NP5/54/376C. Newid defnydd o C5 (Ail Gartref) i Ddefnydd Unigryw (Sui Generis). Hafod Owen, Abergeirw. Derbyniwyd y cais eto ar 19/8/2026 gyda fwy o wybodaeth.

Yn ein cyfarfod Mehefin Penderfynwyd gwrthodwyd y cais ar sail diffyg tystiolaeth bod y 'writer's retreat' arfaethedig yn faterol wahanol i lety tymor byr.

Penderfynwyd (26/8/2026) gwrthod y cais ar i sail diffyg tystiolaeth bod y 'writer's retreat' arfaethedig yn faterol wahanol i lety tymor byr. Hefyd gwrthod y cais ynglŷn â rheoli cerbydau. Os bydd yn gyfyng i bedwar cerbyd mae'n amheus os bydd y nifer yn cael ei reoli yn y dyfodol oherwydd mae posibilrwydd i'r perchennog llacio'r rheol ac yn creu trafferthion traffic i'r cymdogion.

## 8. Materion Ariannol

a. Llythyrau (22/7/2026 a 29/7/2026) oddi wrth Radio Ysbyty Gwynedd. Maent angen gymorth ariannol.

Penderfynwyd codi'r mater yn cyfarfod mis Chwefror.

b. Bil (22/7/2026) am £336.00 oddi wrth Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd am wasanaeth Archwilio Mewnol 2025–2026.

Talwyd y bil (10/8/2026).

c. Yn dilyn Eitem 5. Eitem 6. Eitem 6.c. yn Cofnodion Cyfarfod Mehefin 16, 2026, derbyniwyd llythyr (6/8/2026) oddi wrth Gerallt oedd angen gwybod os oedd yr aelodau yn cytuno i'r Cyngor dderbyn y dyfynbris tua £800+TAW derbyniwyd gan Rhys Tudor, Swyddog i Gyfreithwr Breese Gwyndaf, a gofyn iddo gysylltu â'r Clerc i gyfarwyddo'n seiliedig ar y dyfynbris.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

O'r ymateb derbyniwyd roedd 2 aelod yn cytuno ac 1 gyda sylwadau.

CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEDI 15, 2026

Llythyr (14/8/2026) i'r aelodau oddi wrth Gerallt yn rhoi gwybod mae Neuadd Bentref Llanfachreth yn talu costau cwblhau'r 'Legal Charge' ar gyfer y neuadd, ac fe'u cynrychiolir gan Manon Jones o Guthrie Jones and Jones.

Yn gynharach eleni, hysbyswyd gan Lywodraeth Cymru y byddai angen i Gyngor Cymuned Brithdir a Llanfachreth, yn ei rôl fel yr ymddiriedolwr sy'n dal y teitl (Holding Trustee), gael cynrychiolaeth gyfreithiol ar wahân er mwyn cwblhau'r 'Legal Charge'.

Byddai'r 'Legal Charge' ar y dogfennau teitl am 5 mlynedd.

Os na chaiff y ddogfen ei chwblhau, y canlyniad tebygol fydd y bydd yn rhaid ad-dalu'r grant o £178,818 a ddyfarnwyd i Neuadd Bentref Llanfachreth i Lywodraeth Cymru.

Y bobl a fydd yn elwa ar hyn yw'r trethdalwyr yn ein hardal sy'n defnyddio'r cyfleuster cymunedol.

Penderfynwyd cytuno gyda Gerallt iddo dderbyn (heb fwy o oedi) y dyfynbris derbyniwyd gan Rhys Tudor a gofyn iddo gysylltu â fi i gyfarwyddo'n seiliedig ar y dyfynbris (14/8/2026).

Derbyniwyd (18/8/2026) 6 o ddogfennau oddi wrth Rhys Tudur yn ymwneud â Legal Charge. Anfonwyd hwy ymlaen i Gerallt am help i roi'r wybodaeth sydd ei angen.

Anfonwyd (12/9/2026) i Rhys Tudur dogfennau derbyniwyd gan Gerallt a'r ddogfen New Mortgage Questionnaire (rwy'n amheus iawn ei fod yn gywir).

ch. Anfonwyd (12/8/2026) copi o 'Datganiad o Daliadau Cymuned a Thref' i Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, Archwilio Cymru ac i Elfed ap Gomer ei roi ar ein gwefan.

d. Llythyr (20/8/2026) oddi wrth Rondo Media, Caernarfon. Gwnaethpwyd gwaith chwilota am ganiatâd hefo Tir Comin Garth Wyllt ac un sy'n defnyddio'r tir yw Cyng. Wyn Rowlands, Llwyn yr Helm. Mae Wyn yn dymuno rhoi ei gydnabyddiaeth o £25 i'r Cyngor Cymuned. Maent angen manylion ein banc i wneud y taliad (mae angen arwyddo ffurflen) .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd derbyn y gydnabyddiaeth garedig ac arwyddwyd ffurflen am y taliad.

dd. Llythyr (25/8/2026) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i weithwyr am y cyfnod 2026/27.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Cyflog presennol y Clerc ar bwynt 13 yw £15.06 x 18awr x 12mis = £3,252.96. Taliad misol i HMRC yw £54.22. Taliad misol i'r Clerc yw £216.86.

Mae pwynt SCP13 wedi newid i £15.56 yr awr ddyddiedig o Ebrill 1, 2026.
Mae'r cyflog newydd yn £15.56 x 18awr x 12mis = £3,360.96.
Taliad misol: £3,360.96 / 12 = £280.08.
Cafwyd gwybod gan E.W. Owen a'i Chwmni:
Taliad misol i HMRC: £56.00. Taliad misol i'r Clerc: £224.08.

Penderfynwyd derbyn newid yn y cyflog.

e. Llythyr (26/8/2026) oddi wrth Uned Taliadau yn rhoi gwybod bydd praesept £7,000 (hanner blwyddyn) yn ein cyfrif banc.

f. Balans yn y banc ar 29/7/2026: £4,586.89.
Balans yn y banc ar 29/8/2026: £12,789.61

**9. Archwilio**

**10. Materion yr Aelodau**

**11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Mae'r fainc picnic wrth Llyn Cynwch mewn cyflwr gwael. Mae Delyth yn holi (21/8/2026) pwy sy'n berchen o'r fainc.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Gwnaethpwyd ymoliadau gyda Parc, Cyngor Tref Dolgellau a Dolgellau Angling Association.

Llythyr (22/8/2026) oddi wrth Dolgellau Angling Associationmaent maent yn amau mai'r Parc sy'n gyfrifol am y fainc.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (27/8/2026) oddi wrth Cyngor Tref Dolgellau yn rhoi gwybod nid yw'r Llyn o fewn cymuned Dolgellau.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (27/8/226) oddi wrth Delyth i'r aelodau yn rhoi gwybod mae'r Parc am wneud ymoliadau gyda Bwrdd Dŵr i ofyn os y nhw osododd y fainc. Os nid ydynt am wneud gwaith i'r fainc bydd y Parc yn ei symud o'r safle.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (3/9/2026) oddi wrth Swyddog o'r Parc yn rhoi gwybod ei fod wedi rhoi gwybod i Dŵr Cymru am gyflwr y mainc am ei fod ar eu tir. Awgrymodd i'r Clerc ei ffonio i drafod y fainc ond dwedodd y Clerc wrtho ni fydd yn ei ffonio gan ddisgwyl cael sylwadau Dŵr Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd gwybod (5/9/2026) gan Delyth fydd y Parc yn symud y fainc os ni ddaw ymateb gan Dŵr Cymru. Dŵr Cymru sy'n gyfrifol am y fainc.

Llythyr (14/9/2026) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod maent wedi tynnu'r bwrdd picnic ac maent mewn trafodaethau gyda Dŵr Cymru er mwyn gosod un newydd ar y safle.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Cafwyd gwybod (14/9/2026) gan y Parc mai nhw roddodd y fainc ar y safle ac maent am osod mainc newydd ar y safle wedi iddynt gael caniatad Dŵr Cymru.

b. llythyr (10/9/2026) yn rhoi gwybod mae peth datblygiad yn ddiwddar ynglŷn â Plas Nannau. Mae gwaith wedi cael ei wneud gan y perchennog newydd i'r adeilad iddi fod yn ddiogel ac yn dal dŵr. Does dim cost i'r Parc nag i Wynedd er fod y Parc yn ymwneud ar gwaith ar gorfodaeth ar y safle.
Dyma a drafodwyd yn y Parc 9/9/26: Nannau, Llanfachreth 8.1 8.2 8.3 8.4 8.5 9.0 9.1 9.2. Yn dilyn cyfarfod safle cynhyrchiol a gynhaliwyd yn ôl ym mis Rhagfyr 2025, mae'r trafodaethau wedi parhau. Mae gwaith brys i sicrhau nad yw dŵr yn mynd i mewn i Nannau wedi cael ei wneud. Mae'r gwaith hwn wedi atal unrhyw ddŵr pellach rhag mynd i mewn i'r adeilad, ac mae'n gallu dechrau sychu erbyn hyn. Gwagiwyd y creiriau o Nannau hefyd, ac fe storiwyd unrhyw eitemau sy'n ymwneud â Nannau mewn cynhwysydd mawr ar y safle. Mae ymholiad cyn cyflwyno cais cynllunio wedi'i dderbyn ac fe ymatebwyd iddo, ac er bod angen llawer iawn o wybodaeth cyn y gellir bwydo gwybodaeth i mewn i ymateb sylweddol; mae'r cyflwyniad hwn wedi arwain at gyfarfod ar y safle gyda chynrychiolydd o CADW. Mae'r Awdurdod bellach yn aros am fanylion ychwanegol i ddarparu ymateb llawn i'r ymholiad cyn cyflwyno cais. Bydd ffotograffau o gyflwr presennol Nannau yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau yn y cyfarfod."

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llofnod: Dyddiad: